# Cyngor Cymuned Llangwyryfon
# Adroddiad Blynyddol 2024-25

**Cyflwyniad**

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 52, yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Cymuned yng Nghymru, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r Cyngor dros y flwyddyn flaenorol.

**Trefniadaeth y Cyngor**

Mae Cyngor Cymuned Llangwyryfon yn cynnwys wyth o Gynghorwyr ac mae'n cyflogi Clerc rhan amser fel Swyddog Priodol. Mae swydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol (SAC) yn newid rhwng y Cynghorwyr ac yn ystod y flwyddyn ariannol 2024-25 bu Angharad Evans yn llenwi'r rôl.

**Cadeirydd y Cyngor 2024-2025**

Y Cynghorydd Owen Jewell.

**Etholiadau**

Ni chynhaliwyd etholiad yn ystod y cyfnod 2024-25.

**Apwyntiadau**

Dim apwyntiadau newydd yn ystod y cyfnod 2024-25.

**Cynghorwyr**

Mae Cyngor Cymuned Llangwyryfon (CCLl) yn gwasanaethu cymuned yr ardal o amgylch, ac yn cynnwys, pentref Llangwyryfon, a gynrychiolir gan y cynghorwyr canlynol:

- Dylan Davies
- Lyn Davies
- Angharad Evans (SAC)
- Huw Griffith
- Angharad Jenkins
- Owen Jewell (Cadeirydd)
- Wyre Jones
- Margaret Lewis

Clerc / Swyddog Priodol: E. Robinson

**Aelodaeth**

Un Llais Cymru (ULlC)

**Cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llangwyryfon**

Mae croeso i aelodau'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llangwyryfon, a gynhelir yn Neuadd Santes Ursula ar y trydydd dydd Iau o bob mis, ac eithrio misoedd Awst a Rhagfyr – edrychwch ar y wefan am wybodaeth am bryd y cynhelir y cyfarfod nesaf.

Cyhoeddir cofnodion yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) ar y wefan o fewn 7 diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod: www.cyngorcymunedllangwyryfon.org.uk/cofnodion-minutes

Cynhelir y cyfarfod blynyddol yn mis Mai.

Ni chynhaliwyd cyfarfod yn misoedd Gorffennaf, Medi na Hydref 2024 ac hefyd dim ym mis Ionawr 2025 oherwydd ni lwyddwyd i gael cworwm.

**Cyllid (blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 25)**

*Incwm*

- Praesept 2024-25: £4,098
- Taliad fferm wynt Llety'r Bugail: £6,613.97
- Cyfanswm Incwm: £11,113.97

*Gwariant*

- Cyflog a chostau gweinyddol y Clerc: £1,502.28
- Cyfanswm taliadau eraill: £20,199.66
- Cyfanswm Gwariant: £21,701.94

*Balans ar 31/03/2025*

- Cyfrif Cyfredol: £3,666.59
- Cyfrif Cymunedol: £22,215.11
- Cyfanswm: £25,881.70

**Rhoddion**

Mae adran 137(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu gwariant a fydd o fudd uniongyrchol i'r ardal a'i thrigolion os na ellir defnyddio pwerau eraill. Dyfarnwyd grantiau cymunedol a rhoddion gan y Cyngor i'r sefydliadau lleol canlynol:

- CFfI Llangwyryfon YFC £500 *
- Canolfan Bethel £200 *
- Capel Moriah £200 *
- Capel Tabor £200 *
- Clwb Croeso Club £150 *
- Clwb Garddio £150*
- Cylch Ti a Fi £250 *
- Eglwys Santes Ursula £200 *
- Merched y Wawr £150 *
- Mynwent Llangwyryfon £500 *
- Neuadd Santes Ursula £1,300 *
- W.I. Llangwyryfon £150 *
- Ysgol Gynradd Gymunedol Llangwyryfon £10,000 *
- Y Ddolen £200

* Allan o'r Cyfrif Cymunedol rhannwyd yr arian a dderbynnir o'r melinau gwynt i holl sefydliadau a chymdeithasau'r gymuned.

Mae adran 137(3) o'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i'r Cyngor fynd i wariant at rai dibenion elusennol, a gwnaed y rhodd canlynol:

- Ambiwlans Awyr Cymru £500
- Blood Bikes Wales £250

Yn 2024-25, gwnaeth y Cyngor daliadau gwerth cyfanswm o £14,900.00 o dan adran 137.

Gwiriwyd y cyfrifon gan yr archwiliwr mewnol a'u cymeradwyo gan y Cyngor cyn eu hanfon at Archwilio Cymru.
Pob taliad yn cael ei awdurdodi gan y Cyngor cyn ei dalu.
Paratoir amcangyfrifon o'r gwariant posibl cyn pennu'r praesept a thaliadau adran 137.
Cyhoeddir y balans o'r gyfriflen banc ym mhob cyfarfod.

**Gweithgareddau**

*Ceisiadau Cynllunio*
Ni dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio i'w hystyried yn ystod cyfnod 2024-25.

*Cyflwr heolydd*
Tynnwyd sylw'r Cyngor Sir at nifer o leoliadau ble mae cyflwr yr heol yn wael yn y gymuned ac o ganlyniad, gwnaed atgyweiriadau.

*Biniau halen*
Mae'r Cyngor yn parhau i geisio trefnu gyda'r Cyngor Sir bod biniau halen yn cael eu gosod yn y gymuned.

*Cynigion Cychwynnol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru*
Bu'r Cyngor yn gweithgar yn gwrthwynebu chynigion y Comisiwn ynglŷn â newid ffiniau'r gymuned.

**Cyflawniadau**

Gosododd Cadeirydd y Cyngor dorch pabi coch wrth y gofeb yn ystod gwasanaeth Sul y Cofio.

**Gellir cysylltu â'r Cyngor drwy'r Clerc:**

*Trwy'r post:*
Dr Eifion Robinson (Clerc)
Gwynfryn,
Pentre Isaf,
Llangwyryfon,
Ceredigion.
SY23 5DB.

*Ffôn:*
01974 200 820

*E-bost:*
ccLlangwyryfon@gmail.com

*Gwefan:*
www.cyngorcymunedllangwyryfon.org.uk